Gwybodaeth i ymgeiswyr ar gyfer cwrs TAR Cerddoriaeth Uwchradd

Llongyfarchiadau!
Rydych wedi cael eich gwahodd am gyfweliad i astudio rhaglen TAR Cerddoriaeth Uwchradd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd - edrychwn ymlaen yn fawr at gwrdd â chi ac i glywed am yr hyn sydd gennych i'w gynnig fel darpar athro cerddoriaeth uwchradd. Mae'r llythyr hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am yr hyn y bydd gofyn i chi ei wneud yn ystod diwrnod y cyfweliad, ac mae hefyd yn rhoi syniad clir i chi o'r hyn rydym yn chwilio amdano mewn darpar athro cerddoriaeth. Mae wedi cael ei ddylunio i'ch helpu i baratoi'n briodol fel bod gennych y siawns orau i lwyddo.

Bydd y broses gyfweld yn cynnwys tair rhan, ac mae'n bosibl na chânt eu cynnal yn y drefn a nodir isod.

Rhan 1
Byddwch yn cwblhau profion mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd tasg ysgrifennu estynedig hefyd a fydd yn ymateb i erthygl ar bwnc addysgol, er mwyn asesu sgiliau ysgrifennu estynedig a'ch potensial i ysgrifennu ar lefel gradd Meistr. Byddwch yn derbyn yr erthygl hon cyn y diwrnod i baratoi, felly manteisiwch ar y cyfle i'w darllen yn drylwyr ac i ddeall y prif bwyntiau. Bydd y rhan hon o'r diwrnod yn para tua dwy awr.

Rhan 2
Byddwch yn cymryd rhan mewn tasg addysgu ymarferol. Rydym yn eich gwahodd i baratoi gwers fer iawn nad yw'n para mwy nag 8 munud ar rywbeth sy'n ymwneud â'ch pwnc. Mae'n debygol y byddwch yn addysgu grŵp bach iawn o gyd-ymgeiswyr, nad fydd yn cynnwys mwy na 6 pherson. Dylech anelu am rywbeth ymarferol, gan fod cerddoriaeth yn cael ei addysgu fel pwnc ymarferol mewn ysgolion. Mae rhai syniadau posibl yn cynnwys:

- Cân;
- Gêm curo dwylo;
- Gweithgaredd rhythmig sy'n defnyddio'r corff fel offeryn taro;
- Cerddoriaeth gwlad neu ddiwylliant;
- Ymarferion cynhesu'r llais;
- ...neu syniad arall sydd gennych!

Byddwn yn disgwyl:

- dull brwdfrydig ac sy'n ennyn diddordeb;
- ystyriaeth i baratoi ar gyfer eich sesiwn;
- gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r pwnc;
- defnydd o'ch sgiliau cerddoriaeth eich hun fel rhan o'ch addysgu;
- dulliau clir o gyflwyno gwybodaeth/syniadau.

1. *Cadwch y wers yn syml! Nid ydym yn chwilio am wers berffaith, dim ond eich potensial, felly byddai rhywbeth bach ond pwrpasol yn ddelfrydol.*
2. *Dewiswch bwnc rydych chi'n teimlo'n hyderus ynddo ac yn gyfforddus ag ef - cofiwch, rydym yn edrych ymlaen at weld beth y GALLWCH chi ei wneud, yn hytrach na'r hyn na allwch chi ei wneud!*
3. *Ewch amdani...a mwynhewch y profiad!*

D.S. Nid oes disgwyl i chi ddarparu cynllun gwers

Os ydych yn bwriadu defnyddio adnoddau ar gyfer eich gwers fer, bydd angen i chi ddarparu pob un ohonynt, felly paratowch a dewch â nhw gyda chi. Hefyd, mae'n werth nodi **na fydd cyfleusterau PowerPoint na TGCh ar gael** felly, eto, cofiwch hyn wrth wneud eich cynlluniau.

Bydd **Rhan 3** yn cynnwys cyfweliad unigol byr lle y gallwch egluro'ch rhesymau dros ddod yn athro cerddoriaeth uwchradd, a dangos eich dealltwriaeth o rôl yr athro mewn lleoliad ysgol brif ffrwd. Bydd cyfle gennych hefyd i ofyn cwestiynau i ni fel y gallwch wneud penderfyniad hyddysg. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i sôn am ein

prifysgol a'n rhaglen TAR Uwchradd, gan fod llawer gennym i'w gynnig i ddarpar athrawon dan hyfforddiant brwdfrydig ac rydym yr un mor gyffrous â chi am eich dyfodol!

Edrychwn ymlaen at gwrdd â chi yn eich cyfweliad a dymunwn yn dda i chi ar gyfer y diwrnod. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyrraedd 15 munud cyn eich amser dynodedig fel y gallwn ddechrau'r rhaglen yn brydlon.

Dymuniadau gorau
Thomas Breeze
Arweinydd y Rhaglen TAR Cerddoriaeth Uwchradd
Prifysgol Metropolitan Caerdydd



Met Caerdydd yw'r darparwr mwyaf ar gyfer y cwrs TAR Uwchradd yng Nghymru ac un o'r darparwyr mwyaf yn y DU. Mae hefyd yn un o ddim ond pedair prifysgol a fydd yn derbyn achrediad ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru o fis Medi 2019.
https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/achredu-aga/darparwyr-addysg-gychwynnol-athrawon-yng-nghymru-o-2019.html

Ceir rhagor o wybodaeth am ein cwrs yn http://www.cardiffmet.ac.uk/education/courses/Pages/Secondary-PGCE.aspx